HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**
NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

# TROSEDD CYFEILLIO

**Taflen Ffeithiau Hawdd ei Darllen**

**Cadw'n ddiogel rhag pobl sy'n honni bod yn gyfaill i chi.**



**Dylai pobl eich trin yn deg a charedig.**

**Os yw rhywun yn eich trin yn wael, rhaid i chi ddweud wrth rywun rydych yn ymddiried ynddynt.**



**Mae'r rhan fwyaf o gyfeillion yn gyfeillion.**

**Maent yn gofalu amdanoch ac yn eich trin yn deg.**



**Efallai fod rhai pobl yn honni bod yn gyfaill i chi a'ch trin yn wael.**



**Trosedd Cyfeillio yw pan mae rhywun yn honni bod yn gyfaill i chi ond yn eich trin yn wael.**

**Mae Trosedd Cyfeillio yn erbyn y gyfraith a gwnaiff yr Heddlu eich cynorthwyo i'w stopio.**



## DYMA RAI ENGHREIFFTIAU O DROSEDD CYFEILLIO

Mae cyfaill Jac yn benthyg ei ffôn symudol.

**Mae'n defnyddio'r credyd i gyd ac nid yw byth yn rhoi arian yn ôl iddo.**



Mae ffrind Siân yn rhoi lifft iddi i'r dref.

**Mae'r dref ond dair milltir i ffwrdd. Mae'n codi £30 ar Siân sy'n ormod o arian o lawer.**





Mae cyfeillion cyfryngau cymdeithasol Gareth yn pigo arno.


Maent yn galw enwau hyll arno. Maent yn dweud fod rhaid iddo wneud beth maent yn ei ofyn. Fel arall, ni fyddent yn gyfeillion iddo.



---

Mae Molly yn byw ar ei phen ei hun yn ei fflat.

Mae ei chyfeillion o hyd yn galw. Maent yn gadael y fflat yn llanast ac yn bwyta'i bwyd i gyd. Nid ydynt byth yn dod â dim.



---

Mae Sam yn hoffi mynd i'r parc sglefrio gyda'i gyfeillion.

Maent weithiau'n ei gicio a'i ddyrnu er adloniant.



## Mae Dan yn cael ei dalu ar ddydd Gwener.

Daw ei gyfeillion i'w weld ar ddiwrnod cyflog. Maent i gyd yn mynd i'r dafarn. Mae ei gyfeillion yn cael Dan i brynu'r diodydd i gyd.



## Yr hyn i'w wneud os yw un o'ch cyfeillion yn cael eu trin yn wael.



Dywedwch wrth rywun rydych yn ymddiried ynddynt. Dywedwch wrth lawer o bobl.



Gall y rhain fod yn feddyg teulu i chi, yn aelod o'r teulu (rhiant, brawd, chwaer, taid neu nain) neu swyddog heddlu.





## Hysbyswch am drosedd i'r Heddlu.

Ffoniwch 101 neu siaradwch â'r Heddlu.
Ffoniwch 999 mewn argyfwng.

Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.



Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

78688 Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.